cyweirdai

Erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg roedd pobl yn cael eu carcharu am fethu a thalu dirwyon neu ddyledion a bod yn grwydriaid. Yn aml, roedd y rhai heb eu dedfrydu a oedd yn aros am eu hachos llys yn cael eu cadw gyda'r rhai a gafwyd yn euog, mewn amodau gorboblog, afiach. Roedd dynion, merched a phlant yn cael eu carcharu gyda'i gilydd ac roedd clefydau ac anfoesoldeb yn gyffredin iawn.

Yn 1576 cyflwynwyd Deddf a oedd yn annog adeiladu Cywirdai neu "Bridewells", dan weinyddiaeth ynadon heddwch lleol, lle'r anfonwyd y diwaith a'r diog i weithio.

Cafodd Ynadon Sir Ddinbych orchymyn gan farnwyr Llys y Sesiwn Fawr i adeiladu Cywirdy cyntaf y sir yn 1654 yn Rhuthun. Fe'i adeiladwyd yng ngwaelod Stryd Clwyd ar safle presennol adeiladau'r carchar a phenodwyd y meistr cyntaf, Harry Davies o Rhuthun, flwyddyn yn ddiweddarach.

Yn 1699 gwnaeth estyniadau i'r adeilad arwain at chwalu rhan o borth dwr hynafol y dref.

"Bloc Pentonville" adeiladwyd 1866 cyn yr adnewyddiad diweddar.

yr hanes cynnar

Tybir fod carchar cyntaf Rhuthun wedi'i leoli yn Hen Lys Arglwyddiaeth Rhuthun. Adeiladwyd yr adeilad hwn, lle saif Banc y National Westminster yn awr, tua 1404 yn dilyn ymosodiad Owain Glyndwr ar y dref, ymosodiad mor ffyrnig fel nad oedd prin ddim tai wedi'u gadael yn gyfan.

Cynhaliwyd llysoedd barwnaidd, maenoraidd a llysoedd eraill; gyda'r carcharorion yn cael eu cadw mewn celloedd o dan ystafell y llys gyda'r trawstiau hynod. Treuliodd Richard Gwyn, merthyr Catholig Cymreig, bedair blynedd olaf ei fywyd wedi ei garcharu yn yr adeilad cyn ei grogi yn Wrecsam yn 1584.

Roedd mwyafrif o'r achlysuron crogi yn Rhuthun yn cael eu cyflawni yn Sgwâr Sant Pedr a gellir gweld rhan o'r crocbren ar wal ogledd-orllewinol y llys. Credir mai'r un olaf i'w roi i farwolaeth yma oedd Charles Meehan, offeiriad Jeswit, a gafodd ei grogi, ei ddiberfeddu a'i chwarteru yn 1679.

Safai'r llys lle roedd yr ynadon yn cwrdd ar gyfer y Llysoedd Chwarter (hen neuadd y dref) ynghanol y sgwâr. Fe'i adeiladwyd yn 1663 a'i chwalu yn yr 1860au.



Hen neuadd y dref gan H. Gastineau, 1830.

diwygio'r carchardai

Yn dilyn ymchwiliadau John Howard i amodau yn y carchardai pasiwyd dwy ddeddf yn 1774: roedd y gyntaf yn gwella'r hylendid a glanweithdra mewn carchardai ac yn caniatâu penodi meddygon i'r carchar, ac roedd yr ail yn diddymu'r arfer ei bod yn ofynnol i garcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau dalu swyddogion y carchar wrth gael eu rhyddhau.

Wedi eu hysbrydoli gan ddiwygiadau Howard, penderfynodd yr ynadon yn Sir Ddinbych adeiladu carchar newydd. Erbyn mis Ebrill 1774 roedd Joseph Turner, pensaer o Gaer, wedi llunio'r cynlluniau; cyhoeddwyd hysbysebion ar gyfer cyflawni'r gwaith, a phenodwyd pwyllgor i oruchwylio'r prosiect. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 1775. Mae arysgrifen uwchben y drws ffrynt yn coffau adeiladu'r carchar newydd:

THE MAGISTRATES,
SENSIBLE OF THE MISERABLE STATE
OF THE ANCIENT PRISON,
IN COMPASSION TO THE UNFORTUNATE,
CAUSED
THIS BUILDING TO BE ERECTED
IN THE YEAR
MDCCLXXV

Jos. Turner Architect

Roedd bywyd yn y carchar yn galed iawn. Nododd adroddiad ar y cyflyrau, dyddiedig 3 Mawrth 1788:

"COUNTY GAOL AT RUTHIN.
...No proper separation of the sexes... The debtors pay no chamber rent, and have the county allowance of two shillings a week, yet do not keep their rooms clean. One of the articles in the rules of 1785, is, that all prisoners committed for felony shall have irons put on their legs at the discretion of the keeper, and the same not be altered without the order of a justice of the peace'; even women are not excepted."

Roedd y carchar yn dal: "Debtors 12, Felons &c. 2. Convicts 7..." Cyflog ceidwad y carchar oedd £70.

Carchar y Fflint tua 1950, dyluniwyd gan Joseph Turner ac adeiladwyd yn 1784-1785. Defnyddiwyd yr adeilad hwn tan 1870 pan symudwyd carchar y sir i'r Wyddgrug. Cafodd ei ddymchwel yn 1969. Sylwer y tebygrwydd i Ruthun (Gyda chaniatad Archifdy Sir y Fflint).

datblygu'r carchar

Yn 1802 roedd gan y carchar bedair cell ar gyfer troseddwyr a naw ystafell ar gyfer dyledwyr. Gofynnwyd i Joseph Turner wneud yr adeilad yn fwy. Fodd bynnag, gan ei fod yn hen ac mewn gwaeledd iechyd, nid oedd modd iddo oruchwylio'r gwaith a chafwyd problemau:



Llun yn dangos estyniadau 1803 a 1805 ar Stryd Clwyd.

"[The] - inside bricks are soft - stonework not well put together... not having put in a person of sufficient experience... to see the work done properly... progress appears to have been imposed by the bricklayer and limestone mason... Thru some neglect... [a] considerable part of those unfurnished buildings have been insufficiently inspected... - last winter the brick lining of some of the rooms fell in."

Report dated 17 May, 1803, by Messrs Bromfield and Harrison (architects) on Turner's building alterations (Denbighshire Record Office QSD/AG/1/29).

Gofynnwyd i Thomas Telford, y peiriannydd enwog, oruchwylio'r gwaith ond gwrthododd y cynnig. Cwblhawyd y gwaith gan Thomas Harrison o Gaer yn 1805. Thomas Telford, the famous engineer, was asked to supervise the work but declined. It was completed by Thomas Harrison of Chester in 1805.

Cafodd y carchar ei ehangu eto yn 1812 i wneud lle i gelloedd unigol, ystafelloedd dydd, buarthau ymarfer corff i'r troseddwyr benywaidd a'r dyledwyr, a thair cell penydiol i'r carcharorion. Yn 1824-1825 estynnwyd ochr y merched ac adeiladwyd chwe chell i gadw carcharorion ar eu pennau eu hunain.

Adeiladwyd mwy o gelloedd yn 1837. Roedd y carchar yn medru dal 58 carcharor yr adeg hynny.

llafur caled

Roedd Deddf Carchardai 1865 yn nodi rheolau llym o ran dyluniad carchardai, celloedd, llafur caled, cadw carcharorion ar eu pennau eu hunain, ymborth a gweinyddiaeth. Gan nad oedd Carchar Rhuthun yn cydymffurfio â'r safonau newydd sefydlwyd Pwyllgor Carchar Rhuthun ym mis Ionawr 1866 a phenderfynwyd adeiladu adain newydd pedwar llawr. Erbyn 15 Mawrth roedd cynlluniau'r estyniad yn barod a gorchmynwyd fod:

"...ordered that such part of the walls of the present gaol as require to be altered in order to carry out the intended improvements... be pulled down at once by the prisoners under the direction of the County Surveyor."

Gan ddilyn steil carchar Pentonville (adeiladwyd 1840-42), roedd lle i hyd at gant o garcharorion yn y carchar newydd a chost yr adeilad oedd £12,000.



Cynllun o Garchar Rhuthun yn 1866 (Archifdy Sir Ddinbych).

Ar 1 Ebrill 1878 daeth Carchar Sirol Rhuthun yn Garchar ei Mawrhydi Rhuthun yn gwasanaethu Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Sir Feirionnydd. Gwnaed rhagor o addasiadau i wella'r amodau i ferched ac enillodd y carchar enw rhagorol iddo'i hun.

Yn 1904 roedd 81 o ddynion a 6 dynes yn y carchar.

Cadwyd carcharorion yn y carchar tan 1916 pan gafodd ei gau gan y Comisiynwyr Carchar. Trosglwyddwyd tri ar ddeg o swyddogion carchar i Garchar Amwythig. Prynodd y Cyngor Sir yr adeilad am £4,000 yn 1926, a defnyddiwyd rhannau o'r adeilad fel swyddfeydd a llyfrgell. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd defnyddiwyd yr adeilad fel ffatri arfau rhyfel.